

GWEDDI EWCHARISTAIDD MEWN OFFEREN GYMOD II

C2

Yr Arglwydd a fo gyda chwi -
A chyda thithau.

Dyrchafwn ein calonnau -
Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw -
Addas a chyfiawn ydyw.

Rhaglith



Gwir addas a chyfiawn,
ie, ein dyletswydd a'n hiachawdwriaeth yw
bob amser ac ym mhob lle roddi diolch i ti,
Arglwydd, sanctaidd Dad, hollalluog dragwyddol Dduw,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
am gynhaliaeth gyson dy gariad.

Yng nghanol pob ymrafael ac ymraniad,
Ti sydd yn deffro ynom awydd am droi i ffyrdd tangnefedd.
Dy Ysbryd di sydd yn newid calonnau:
yn peri i elynion wrando ar ei gilydd,
yn peri i'r rhai a fu ymhell nesáu at ei gilydd,
ac i'r cenedloedd geisio gwir gymod.

Dy Ysbryd di sydd ar waith
pan ddaw dirnadaeth yn lle cynnen,
tosturi yn lle casineb,
a maddeuant yn lle dial.

Am hyn rhoddwn ddiolch a moliant i ti byth bythoedd
gyda'r holl angylion a'r saint,
gan gydganu emyn dy ogoniant:

**Sanctaid, Sanctaid, Sanctaid,
Arglwydd Dduw'r lluoedd.
Mae'r nef a daear yn llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.
Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

O Dduw hollalluog a thrugarog,
molwn di trwy dy Fab, Iesu Grist,
sy'n dyfod yn dy enw.
Ef yw Gair ein hiachawdwriaeth,
Ef yw dy law a estynni at bechaduriaid,
Ef yw'r ffordd i mewn i'th dangnefedd.
Annwyl Dad, er inni grwydro ymhell oddi wrthyt,
yr wyt wedi ein dwyn yn ôl atat trwy dy Fab.
Fe'i traddodaist i farwolaeth drosom ni oll,
er mwyn ein cymodi â'n gilydd ac â thi.



Ac yr ydym yn coffáu'n ddiolchgar yr hedd a enillodd Ef inni.
Sancteiddia di, gan hynny, y rhoddion hyn
â gwllith dy Ysbryd Glân,
a'u troi er ein mwyn yn gorff ✠ a gwaed dy Fab.



Yn ystod y swper, y noson cyn iddo farw drosom,
fe gymerodd fara, a chan ddiolch iti a'th fendithio,
fe'i torrodd a'i roddi i'w ddisgyblion, gan ddweud:



**CYMERWCH, BWYTEWCH OHONO BAWB:
HWN YW FY NGHORFF A RODDIR DROSOCH.**



Wedi bwyta, cymerodd y cwpan,
a chan ddiolch iti a'th fendithio drachefn,
fe'i rhoddodd i'w gyfeillion, gan ddweud:



**CYMERWCH, YFWCH OHONO BAWB
HWN YW CWPAN FY NGWAED
O'R CYFAMOD NEWYDD A THRAGWYDDOL,
A DYWELLTIR DROSOCH CHWI A THROS BAWB
ER MADDEUANT PECHODAU.
GWNEWCH HYN ER COF AMDANAF.**

Dyma ddirgelwch y Ffydd:

**1 Cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd,
addefwn dy atgyfodiad nes i ti ddod.**

Neu:

**2 Bob tro y bwytawn y bara hwn ac yfed y cwpan,
cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd, nes i ti ddod.**

Neu:

**3 Iachawdwr y byd, iachâ ni;
trwy dy groes a'th atgyfodiad, yr wyt wedi ein rhyddhau.**



O Arglwydd ein Duw, gan i'th Fab ymddiried inni
yr ernes hon o'i gariad,
yr ydym yn coffáu ei farwolaeth a'i atgyfodiad,
ac yn cyflwyno i ti y rhodd a roddaist inni,
yr un aberth hedd,
gan ofyn iti, annwyl Dad, ein derbyn ni gyda'th Fab.



① Llanw ni â'i Ysbryd trwy gyfrwng y dirgelwch hwn,
a bydded iddo chwalu pob gwahanfur.
Bydded iddo ein cadw ni mewn cymundeb
â **E.**, ein Pab, **E.** ein hesgob, yr holl esgobion a'th holl bobl.



②

O Dad, gwna dy Eglwys ar hyd a lled y byd
yn arwydd o undeb i'r holl ddynol ryw
ac yn gyfrwng tangnefedd.



Fel yr wyt yn ein cynnull ni o gwmpas bwrdd dy Fab
gyda'r Forwyn Fair, Fam Duw, a'r holl saint,
erfyniwn arnat i ddwyn y bobloedd oll,
o bob hil ac iaith a diwylliant,
i gymod a heddwch yn y byd hwn,
a'u cynnull ynghyd i'r wledd dragwyddol
lle unir pawb

yng Nghrist Iesu dy Fab.



TRWY - DDO EF A CHYDAG EF, AC YN - DDO EF,
Y MAE I TI, DDUW DAD HOLLALLUOG, YN UNOD YR YS BRYD GLÂN
BOB ANRHYDEDD A GO-GO-NI-ANT YN OES OES OEDD.

Prif off. neu bawb

Trwyddo ef, a chydag ef, ac ynddo ef,
y mae i ti, Dduw Dad Hollalluog,
yn undod yr Ysbryd Glân,
bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.



R. A-men.

Amen.